Ysgol Glan Morfa

Polisi E-Ddiogelwch

Pennaeth / Headteacher: Meilir Tomos

Cadeirydd y Llywodraethwyr / Chair of Governors: Andy Regan

Dyddiad Adolygu / Review Date: Chwefror – Mai 2025

Gyda'n Gilydd Fe Lwyddwn

Polisi e-Ddiogelwch

Mae'r polisi yma yn gymwys i bob aelod o gymuned yr ysgol (gan gynnwys staff, dysgwyr, gwirfoddolwyr, rhieni a gwarchediaid, ac ymwelwyr) sydd â mynediad i ac sy'n ddefnyddwyr o systemau digidol yr ysgol y tu fewn i a thu hwnt i'r ysgol.

Datblygiad, Monitro ac Adolygu y Polisi

Lluniwyd y polisi yma gan Mr A Jones mewn cydweithrediad â Mr M Tomos (Pennaeth ysgol a swyddog diogelu plant)

Amserlen ar gyfer adolygu a datblygu

Cymerawdwyd y polisi yma gan Llywodraethwyr yr Ysgol ar:	1.10.24
Bydd y polisi e-Ddiogelwch yn cael ei fonitro gan:	Mr M Tomos
Bydd monitro y polisi yn digwydd:	Mai 2023
Bydd y Corff Llywodraethu yn derbyn adroddiad ar y polisi (gan gynnwys manylion di-enw o ddigwyddiadau) yn rheolaidd	
Bydd y polisi e-Ddiogelwch yn cael ei adolygu yn flynyddol neu os oes yna ddatblygiad penodol mewn technoleg, bygythiad ar-lein newydd neu ddigwyddiad. Disgwylir I'r polisi gael ei adolygu:	Blwyddyn i'r dyddiad cymerawdwyo
Pe bai digwyddiad difrifol ar-lein, bydd yr asiantaethau allanol ac unigolion yma yn cael eu hysbysu:	Swyddogion diogelu plant sef Mr M Tomos, Miss B Jenkins, Mrs D Mullane a Mr A Regan Tîm Diogelu yr Awdurdod Lleol

Bydd yr ysgol yn monitro effaith y polisi gan ddefnyddio:

- Cofnodion adroddiadau digwyddiad (yn ogystal a My Concern)
- Holiaduron defnyddwyr system
- Log o ddefnydd y rhyngrwyd

<u>Cyfrifoldebau</u>

Mae'r adran yma yn amlinellu cyfrifoldebau e-Ddiogelwch unigolion a grwpiau yn yr ysgol:

<u>Llywodraethwyr:</u>

Mae'r llywodraethwyr yn gyfrifol am gymerawdwyo y Polisi e-Ddiogelwch ac am adolygu effeithiolrwydd y polisi. Bydd aelod o'r Corff Llywodraethu yn cymryd rôl Llywodraaethwr yn gyfrifol am e-Ddiogelwch. Bydd yr aelod yma yn:

- Mynychu cyfarfodydd gyda'r Cydlynydd e-Ddiogelwch
- Monitro log digwyddiadau e-ddiogelwch
- Adrodd yn ôl I'r llywodraethwyr

Prifathro ac Uwch Athrawon

- Mae gan y prifathro ddyletswydd i sicirhau diogelwch (gan gynnwys e-Ddiogelwch) pob aelod o gymuned yr ysgol ond gellid dirprwyo'r cyfrifoldeb o ddydd i ddydd i'r swyddog e-ddiogelwch
- Dylai'r prifathro ac (oleiaf) un aelod arall o'r Tim Arwain fod yn ymwybodol o'r camau I'w dilyn rhag ofn bod cyhuddiad difrifol diogelwch ar-lein yn cael ei wneud yn erbyn aelod o staff
- Mae'r prifathro/tim arwain yn gyfrfol am sicirhau fod y cydlynydd e-ddiogelwch ac staff priodol eraill yn derbyn hyfforddiant priodol er mwyn eu caniatau nhw I gyflawni eu rôl e-ddiogelwch ac i hyfforddi cyd-weithwyr fel ac y bo'n berthnasol.
- Bydd y prifathro/tim arwain yn sicirhau fod system mewn lle er mwyn caniatau monitro a chefnogi rheini o fewn yr ysgol sydd yn cynnal y monitro ar-lein mewnol. Bydd hyn yn darparu cefnogaeth a gofal I'r sawl sy'n ymgymryd a'r cyfrifoldeb.
- Bydd y prifathro/tim arwain yn derbyn adroddiadau monitro wrth y cydlynydd e-ddiogelwch

Swyddog e-ddiogelwch/cyd-lynydd e-ddiogelwch

- Arwain y grwp e-ddiogelwch
- Cymryd cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am faterion e-ddiogelwch ac arwain wrth sefydlu ac adolygu polisiau a dogfennau e-ddiogelwch
- Sicirhau fod staff yn ymwybodol o'r camau sydd angen eu dilyn mewn achos o ddigwyddiad e-ddiogelwch
- Darparu neu drefnu hyfforddiant a chyngor i staff
- Cysylltu â'r awdurdod lleol
- Cysylltu â staff technegol yr ysgol
- Derbyn adroddiadau o ddigwyddiadau e-ddiogelwch a chreu log o ddigwyddiadau er mwyn eu cynnwys mewn datblygiadau e-ddiogelwch
- Cyfarfod yn rheolaidd â'r llywodraethwr e-ddiogelwch i drafod materion cyfredol, adolygu logiau o newidiadau i ffilteru

Rheolwr Rhwydwaith/Staff Technegol (ITeach)

Mae'r Rheolwr Rhwydwaith yn gyfrifol am:

- Sicirhau fod rhwydwaith mewn yr ysgol yn ddiogel ac heb fod yn agored i gam-ddefnydd neu ymosodiad maleisus
- Sicirhau fod yr ysgol yn cwrdd â (fel man cychwyn) y gofynion e-ddiogelwch sydd wedi eu amlinellu gan yr awdurdod lleol a'r polisi e-ddiogelwch hwn
- Sicirhau fod defnyddwyr ond yn cael mynediad I rhwydweithiau ac offer drwy system sydd wedi ei amddiffyn gan gyfrineiriau a bod y cyfrineiriau hynny yn cael eu newid yn rheolaidd
- Sicirhau eu bod nhw'n gymwys i gyflawni'r rôl o Reolwr Rhwydwaith gan gadw I fyny â datblygiadau newydd yn y maes o e-ddiogelwch

- Sicirhau fod y defnydd o'r rhwydwaith, y wê, HWB, e-bost ac unrhyw elfen arall o gyfathrebiad digidol yn cael ei fonitro er mwyn sicirhau fod unrhyw gam-ddefnydd neu bwriad o gam-ddefnydd yn cael ei adrodd I'r prifathro/uwch athro a'r swyddog e-ddiogelwch
- Sicirhau bod unrhyw feddalwedd neu systemau monitro yn cael eu implementeiddio a'u diweddaru yn rheolaidd
- Sicirhau bod y polisi hidlo yn cael ei gymhwyso a'i ddiweddaru yn rheolaidd

Athrawon a Staff Cefnogi

Mae athrawon a staff cefnogi yn gyfrifol am:

- Gaffael ar ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gyfredol o faterion e-ddiogelwch, polisi e-ddiogelwch yr ysgol a'r camau I'w cymryd
- Ddarllen, deall ac arwyddo y Cytundeb Defnydd Derbyniol Staff
- Cofnodi ac adrodd ar unrhyw gam-ddefnydd neu broblem i'r prifathro/uwch-athro; swyddog e-ddiogelwch er mwyn ei archwilio
- Gyfathrebu â dysgwyr, rieni neu warchodwyr ar lefel broffesiynol gan ddefnyddio systemau swyddogol yr ysgol
- Gynnwys materion e-ddiogelwch mewn pob math o agweddau o'r cwriciwlwm ac o weithgareddau gwahanol
- Wneud yn siwr fod dysgwyr yn deall ac yn dilyn y cytundebau defnydd derbyniol
- Sicirhau fod dealltwriaeth dda gan ddisgyblion o sgiliau ymchwilio a'r angen i osgoi llên-ladrad a chynnal rheolau hawlfraint
- Fonitro y defnydd o dechnoleg digidol mewn gwersi a gweithgareddau ac yna i weithredu y polisiau priodol i'r dyfeisiau yna
- Mewn gwersi lle bod defnydd o'r wê wedi ei gynllunio o flaen llaw, dylai dysgwyr gael eu llywio i wefannau sydd wedi eu gwirio o ran priodolrwydd i'r disgyblion ac yna i weithredu y polisi pe bai deunydd anweddus yn cael ei ddarganfod mewn cyrchiadau ar y wê

Uwch-Aelod o Staff Dynodedig

Materion diogelu ydy rhain, nid materion technegol. Blaenoriaeth yr ysgol ar bob achlysur ydy i ddiogelu y gymuned ysgol fel corff cyfan ac fel unigolion yn y corff hwnnw. Dylid fod yr Uwch-Aelod o Staff Dynodedig wedi ei hyfforddi mewn materion diogelu a bod yn ymwybodol o'r potensial i ddigwyddiadau diogelu difrifol godi o:

- Rannu data personol
- Gael mynediad I ddeunyddiaddau anghyfreithlon neu anweddus
- Gyswllt amhriodol ar-lein gyda oedolion cyfarwydd neu dieithr
- Seibr-fwlio
- Y potensial ar gyfer neu ddigwyddiadau go iawn o ddynesu at blant er mwyn camdrin rhywiol

Dylid ystyried fod yr Uwch-Aelod o staff Dynodedig a'r rôl o Swyddog e-Ddiogelwch fod naill ai yr un person neu yn cyd-weithio yn agos oherwydd y potensial am gyswllt rhwng y ddau.

Grwp e-Ddiogelwch

Swyddogaeth y Grwp e-Ddiogelwch ydy i gynrychioli trawsdoriad eang o randdeiliaid yr ysgol er mwyn trafod materion e-ddiogelwch a monitro y polisi. Bydd y grwp hefyd yn gyfrifol am adrodd i'r Corff Llywodraethu.

Bydd aelodau y grwp e-Ddiogelwch yn cynorthwyo y Swyddog e-Ddiogelwch wrth:

- Adolygu a monitro polisi e-Ddiogelwch yr ysgol
- Mapio ac adolygu darpariaeth gwriciwlaidd e-ddiogelwch yr ysgol; sicirhau perthnasedd, ehangder a datblygiad
- Monitro logiau (My Concern) o ddigwyddiadau ar y rhwydwaith neu'r wê pan fo hynny'n bosibl
- Ymgynghori â rhanddeiliaid - gan gynnwys rhieni/gofalwyr a'r disgyblion ynglyn â'r ddarpariaeth e-ddiogelwch
- Monitro gweithrediadau er mwyn gwella fel ag y'I canfyddir nhw drwy'r defnydd o 360 degree safe Cymru

Gwelir yr amodau gorchwyl ar gyfer y Grwp e-Ddiogelwch yn yr apendics.

Disgyblion

- Cyfrifol am ddefnyddio systemau technoleg digidol yn unol â y Cytundeb Defnydd Priodol
- Caffael ar ddealltwriaeth dda o sgiliau ymchwilio a'r angen i osgoi llên-ladrad a chynnal rheolau hawlfraint
- Angen deall y pwysigrwydd o gofnodi ac adrodd cam-ddefnydd, cam-drin neu cael mynediad I adnoddau anweddus a gwybod sut mae gwneud felly
- Bydd disgwyl i'r disgyblion wybod a deall y polisiau am y defnydd o ddyfeisiau symudol a chamerau digidol. Dylen nhw hefyd wybod a deall y polisiau priodol ynglyn â gymryd lluniau a seibr-fwlio (polisi gwrth-fwlio)
- Dylai disgyblion ddeall y pwysigrwydd o fabwysiadau arfer dda o e-ddiogelwch pan yn defnyddio technoleg digidol tu hwnt i ffiniau'r ysgol a deall fod polisi'r ysgol yn gymwys os ydy'r disgybl yn cymryd rhan mewn gweithred neu ddigwyddiad sydd i wneud â'r ysgol

Rhieni a Gofalwyr

Mae rôl allweddol gan rhieni a goflawyr i'w gyflawni i sicirhau fod eu plant nhw yn defnyddio technoleg mewn modd priodol a diogel. Bydd yr ysgol yn cymryd pob cyfle posib i helpu rieni i ddeall y materion yma. Bydd rhieni a gofalwyr yn cael eu hannog i gefnogi'r ysgol wrth hyrwyddo arfer dda o e-ddiogelwch ac i ddilyn canllawiau ar y defnydd priodol o:

- Luniau neu fideo sydd wedi ei gymryd neu ei greu mewn digwyddiad ysgol
- Ardal y rieni o'r wefan ysgol a'r HWB

Defnyddwyr Cymunedol

Bydd disgwyl i'r rheini sy'n defnyddio systemau technegol yr ysgol neu HWB fel rhan o ddarpariaeth ehangach yr ysgolil arwyddo y Cytundeb Defnydd Priodol ar gyfer aelod o'r gymuned cyn cael mynediad i systemau yr ysgol.

Datganiadau Polisi

Addysg – Dysgwyr

Mae addysgu disgyblion mewn e-Ddiogelwch o'r pwysigrwydd pennaf ac felly, yn rhan greiddiol o ddysgu ac addysgu ar lawr y dosbarth. Mae angen cymorth a chefnogaeth ar y disgyblion gan yr ysgol er mwyn adnabod ac osgoi risg a pheryg ar y wê.

Dylai e-Ddiogelwch fod yn ffocws ym mhob agwedd o'r cwricwlwm a staff atgyfnerthu negeseuon e-Ddiogelwch ar draws y cwricwlwm. Dylai'r cwricwlwm e-Ddiogelwch fod yn eang, yn berthnasol a darparu datblygiadiad gyda cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau creadigol fydd wedi eu darparu yn y ffyrdd canlynol:

1. Cwricwlwm e-Ddiogelwch wedi ei gynllunio ar draws amrywiaeth o bynciau (TGCh, DPCh, ABCh)
2. Prif negeseuon e-Ddiogelwch i'w hatgyfnerthu mewn rhaglen o wasanaethau a gweithgareddau bugeiliol
3. Dylai disgyblion gael eu addysgu i fod yn ymwybodol o'r adnoddau digidol y maent yn eu defnyddio gan wirio cywirdeb y ffynhonell.
4. Dylai disgyblion gael eu dysgu i gydnabod y ffynhonell wybodaeth a ddefnyddir ac i barchu hawlfraint pan yn defnyddio gwybodaeth neu adnoddau aml-gyfrwng a ddarganfuwyd ar y wê.
5. Pan fo defnydd or rhyngrwyd wedi ei gynllunio ymlaen llaw, yr arfer orau ydy fod disgyblion yn cael eu tywys at wefannau sydd wedi eu gwirio ac sydd yn addas ar gyfer eu defnydd nhw ac, pe bai adnoddau amhriodol neu anweddus yn cael eu darganfod, eu bod nhw'n dilyn y camau priodol.
6. Os ydy disgyblion yn cael cyrchu'n rhydd ar y we, dylai staff fod yn wyliadwrus gan fonitro y gwefannau mae disgyblion yn eu defnyddio.

<u>Addysg – Rhieni a gofalwyr</u>

Mae gan rieni a gofalwyr swyddogaeth holl-bwysig I'w gyflawni wrth addysgu eu plant yn y defnydd priodol a diogel o'r wê ac wrth fonitro eu defnydd nhw o'r wê.

Bydd yr ysgol felly yn ceisio darparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr yn y ffyrdd canlynol:

- Mewn Llythyron ac ar wefan yr ysgol
- Sesiynau hyfforddiant ar gyfer rhieni a gofalwyr
- Gwybod am ddiwrnodau penodol yn y flwyddyn e.e. Diwrnod e-Ddiogelwch (ail ddydd Mawrth mis Chwefror)
- Cael eu cyfeirio at wefannau neu gyhoeddiadau priodol e.e. https://hwb.wales.gov.uk; www.saferinternet.org.uk; http://www.childnet.com/parents-and-carers

<u>Hyfforddiant ac addysgu – Staff/gwirfoddolwyr</u>

Mae'n hanfodol fod staff yn derbyn hyfforddiant e-Ddiogelwch ac yn deall eu cyfrifoldebau fel ag y sydd yn cael eu manylu yn y polisi yma. Bydd yr hyfforddiant yma yn cael ei gynnig:

1. Rhaglen strwythuredig o hyfforddiant e-Ddiogelwch I'w ddarparu I'r staff. Bydd awdit o'r anghenion hyfforddi staff yn cael ei gynnal yn rheolaidd
2. Bydd staff newydd yn derbyn hyfforddiant e-Ddiogelwch fel rhan o'u hyfforddiant anwytho fel eu bod nhw'n deall polisi e-ddiogelwch yr ysgol a'r cytundebau defnydd derbyniol
3. Bydd y Swyddog e-ddiogelwch yn darparu cyngor a hyfforddiant I unigolion yn ôl yr angen

<u>Hyfforddi – llywodraethwyr</u>

Dylai llywodraethwyr gymryd rhan mewn hyfforddiant e-Ddiogelwch yn arbennig os ydy'r aelodau hynny o'r corff llywodraethu ar is-bwyllgorau technoleg neu ddiogelu plant. Gellid cynnig yr hyfforddiant yma mewn amryw o ffyrdd:

- Mynychu hyfforddiant sy'n cael ei gynnig gan yr Awdurdod Lleol
- Cymryd rhan mewn hyfforddiant e-Ddiogelwch sy'n cael ei ddarparu ar gyfer staff neu rhieni.

Technegol – rhwydwaith mewnol, offer, hidlo a monitro

Dyletswydd **ITeach** ydy sicirhau fod mesurau e-Ddiogelwch yn cael eu cyflawni. Fe fydd y rhwydwaith mor ddiogel a chadarn ac sydd yn rhesymol i'w ddisgwyl ac fod y polisi yma yn cael ei weithredu.

- Bydd yr systemau technegol yr ysgol yn cael eu rheoli mewn modd sy'n sicirhau fod yr ysgol yn cwrdd â'r gofynion technegol a argymhellir
- Bydd archwiliadau rheolaidd o ddiogelwch systemautechnegol yr ysgol yn cael eu cynnal gan Principality IT
- Bydd cyfrinair a enw defnyddiwr grwp ar gael i bob disgybl yn yr ysgol er mwyn cael mynediad i'r rwydwaith
- Bydd prif gyfrineiriau a chyfrineiriau gweinddwr sy'n cael eu defnyddio gan Rheolwr y Rwydwaith fod ar gael i'r Pennaeth neu Uwch Arweinydd penodedig arall a chael ei gadw mewn lleoliad diogel
- Bydd mynediad i'r rhyngrwyd yn cael ei hidlo

Dewch a'ch Dyfais eich Hun

Does dim caniatad gan ddisgyblion i ddod â dyfeisiau eu hunain i'r ysgol nac chwaith i'w cymryd gyda nhw ar drip diwrnod na thrip preswyl.

Defnydd delweddau digidol a fideo

Gall rhannu delweddau digidol a fideo fod o fudd enfawr i ysgolion, rieni neu ofalwyr a phlant. Yn y dosbarth, maen caniatau i ddisgyblion gale mynediad cyflym i ddelweddau maent wedi recordio eu hunain neu wedi lawrlwytho o'r rhyngrwyd. Yn hynny o beth mae yna beryg cynhenid sydd angen rhybuddio disgyblion ac oedolion ohono. Gall y fath ddelweddau ddarparu cyfleoedd i seibrfwlio ddigwydd. Gall delweddau digidol aros ar y rhyngrwyd am byth a gallant achosi niwed neu gywilydd i unigolion yn y byrdymor neu'r hirdymor. Mae'n gyffredin i gyflogwyr gynnal chwiliadau ar y rhyngrwyd am wybodaeth am gyflogwyr posib neu bresennol. Bydd yr ysgol yn hysbysu ac yn addysgu defnyddwyr am y peryglon yma ac yn gweithredu polisïau i leihau'r tebygrwydd o botensial niwed:

- Wrth ddefnyddio delweddau digidol, dylai staff hysbysu ac addysgu myfyrwyr / disgyblion am y peryglon sy'n gysylltiedig â thynnu, defnyddio, rhannu, cyhoeddi a dosbarthu delweddau. Yn benodol, dylent adnabod y peryglon sydd yn gysylltiedig â chyhoeddi delweddau eu hunain ar y rhyngrwyd ee ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol.
- Dylid cymryd gofal wrth dynnu delweddau digidol / fideo bod disgyblion wedi'u gwisgo'n addas a ddim yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gall ddwyn anfri ar unigolyn neu'r ysgol.
- Ni ddylai disgyblion dynnu, defnyddio, rhannu, cyhoeddi nac dosbarthu delweddau o eraill heb ganiatâd.
- Ni ddefnyddir enwau llawn myfyrwyr / disgyblion ar wefan swyddogol neu gymdeithasol yr ysgol yn enwedig wedi'i gysylltu i luniau.
- Bydd caniatâd ysgrifenedig gan rieni yn cael ei sicrhau cyn i luniau'r disgyblion gael eu cyhoeddi ar wefan swyddogol neu gymdeithasol yr ysgol

Amddiffyniad Data

Bydd data personol yn cael ei gofnodi, ei brosesu, ei drosglwyddo ac ar gael yn ôl y Ddeddf Amddiffyn Data 2018 sydd yn datgan bod rhaid i ddata personol:

- Cael ei brosesu'n deg ac yn gyfreithiol
- Cael ei brosesu ar gyfer pwrpas cyfyngedig

- Bod yn ddigonol, yn berthnasol a ddim yn ormodol
- Bod yn gywir
- Peidio cael ei gadw am hirach nag sydd angen
- Cael ei brosesu mewn cytundeb â hawliau'r pwnc data
- Bod yn ddiogel
- Dim ond i gael ei drosglwyddo i eraill sydd ag amddiffyniad digonol.

Mae'n rhaid i'r ysgol sicrhau:

- Ei fod yn cadw'r isafswm lleiaf o ddata personol sydd ei angen i gyflawni'r swyddogaeth orau ac i beidio cadw 'r data yn hirach nag sydd angen ar gyfer y pwrpas cafodd ei gasglu.

- Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod data sy'n cael ei gadw yn gywir, yn gyfoes a bod unrhyw anghywirdeb yn cael ei gywiro heb oedi diangen.

- Bydd dod o hyd i ddata personol yn cael ei wneud yn deg ac mewn cytundeb â'r "Rhybudd Preifatrwydd" ac yn cael ei brosesu yn gyfreithiol mewn cytundeb â'r "Amodau ar gyfer Prosesu".

- Bod ganddo Bolisi Amddiffyn Data

- Ei fod wedi cofrestru fel Rheolwr Data ar gyfer pwrpas y Ddeddf Amddiffyn Data

Mae angen i'r staff sicirhau eu bod nhw'n:

- Cymryd gofal i sicrhau cadw diogel o ddata personol trwy'r adeg, yn lleihau'r risg o'i golli neu ei gamddefnyddio.

- Defnyddio data personol ar gyfrifiaduron a dyfeisiau eraill diogel sydd wedi'u hamddiffyn gan gyfrinair yn unig, yn sicrhau eu bod wedi "allgofnodi" ar ddiwedd unrhyw sesiwn ble maent yn defnyddio data personol.
- Trosglwyddo data gan ddefnyddio amgryptio a dyfeisiau sydd wedi'u hamddiffyn gyda chyfrinair diogel.

- Dylai athrawon osgoi cadw data personol ar systemau cludadwy. Arfer orau systemau cludadwy ydy eu cadw nhw ar gyfer cynlluniau, adnoddau a phethau dosbarth ac nid i gadw gwybodaeth bersonol arnyn nhw.

<u>Cyfathrebu</u>

Mae amrywiaeth eang o dechnolegau cyfathrebu sydd yn datblygu'n sydyn iawn. Wrth ddefnyddio technolegau cyfathrebu mae'r ysgol yn ystyried y canlynol fel ymarfer da:

- Gall gwasanaeth e-bost swyddogol yr ysgol gael ei ystyried yn ddiogel ac mae'n cael ei fonitro. Dylai defnyddwyr fod yn ymwybodol bod cyfathrebiadau e-bost yn cael eu monitro.
- Dylai defnyddwyr adrodd i'r person enwebedig yn syth - mewn cytundeb â pholisi'r ysgol - os ydynt yn derbyn unrhyw gyfathrebiad sydd yn gwneud iddynt deimlo'n anghyffyrddus, os yw'n natur sarhaus, gwahaniaethol, bygythiol neu'n bwlio, ni ddylid ymateb i'r fath gyfathrebiad.
- Mae'n rhaid i unrhyw gyfathrebiad digidol rhwng staff a myfyrwyr / disgyblion neu rieni / gofalwyr (e-bost, sgwrsio, ayb) fod yn broffesiynol yn ei naws a'i gynnwys.

Cyfryngau Cymdeithasol - Amddiffyn Hunaniaeth Broffesiynol

Mae'r ysgol yn darparu'r mesuriadau canlynol i sicrhau bod camau rhesymol mewn lle i leihau'r perygl o niwed i ddisgyblion, staff a'r ysgol wrth gyfyngu mynediad i wybodaeth bersonol:

- Hyfforddiant i gynnwys: defnydd derbyniol; peryglon cyfryngau cymdeithasol; gwirio gosodiadau; amddiffyn data; adrodd materion.
- Arweiniad adrodd clir, gan gynnwys cyfrifoldebau, trefn a sancsiynau
- Asesiad Risg, gan gynnwys risg cyfreithiol
- Nad oes unrhyw gyfeiriad tuag at fyfyrwyr / disgyblion, rhieni / gofalwyr nac staff ysgol mewn cyfryngau cymdeithasol
- Nad ydynt yn cysylltu mewn trafodaeth ar-lein ar faterion personol yn ymwneud ag aelodau cymuned yr ysgol
- Nad yw barn bersonol yn cael ei briodoli i'r ysgol neu'r awdurdod lleol
- Bod gosodiadau diogelwch ar broffiliau cyfryngau cymdeithasol personol yn cael eu gwirio'n aml i leihau'r perygl o golli gwybodaeth bersonol

Gweithgareddau anaddas / amhriodol

Mae yna weithgareddau ar-lein sydd yn anghyfreithlon ee cyrchu delweddau camdriniaeth plant neu rannu deunydd hiliol ac yn amlwg bydd hyn yn cael ei wahardd o'r ysgol a phob system dechnegol arall. Bydd gweithgareddau eraill ee seibrfwlio yn cael ei wahardd a gallai arwain at erlyniad troseddol. Ond mae yna amrywiaeth o weithgareddau sydd efallai, yn gyfreithiol yn gyffredinol, ond fydda'n amhriodol mewn cyd-destun ysgol, oherwydd oedran y defnyddwyr neu natur y gweithgareddau yma.

Ymateb i ddigwyddiadau o gamddefnydd

Bwriedir i'r adran yma gynnig arweiniad pan fydd angen rheoli digwyddiadau sydd yn cynnwys y defnydd o wasanaethau ar-lein. Gall y digwyddiadau hynny gynnwys gweithgareddau anghyfreithlon neu anaddas.

Digwyddiadau anghyfreithlon

Os oes unrhyw amheuaeth bod y gwefan(nau) dan sylw yn cynnwys delweddau camdriniaeth plant, neu os oes amheuaeth o unrhyw weithgaredd anghyfreithlon fel arall, cyfeiriwch at ochr dde'r Siart Llif ar gyfer ymatebiad i ddigwyddiadau diogelwch ar-lein ac adrodd i'r heddlu yn syth.

Digwyddiadau Eraill

Gobeithir bod holl aelodau cymuned yr ysgol yn ddefnyddwyr cyfrifol o dechnolegau digidol, fydd yn deall ac yn dilyn polisi'r ysgol. Ond, efallai bydd adegau pan fydd tor polisi yn digwydd, trwy gamddefnydd esgeulus, anghyfrifol ac, yn brin iawn, bwriadol.

Mewn digwyddiad o amheuaeth, dylid dilyn yr holl gamau yn y weithdrefn hon:

- Cael mwy nag un aelod uwch o staff / gwirfoddolwyr yn cymryd rhan yn y broses hon. Mae'n hanfodol i amddiffyn unigolion os yw cyhuddiadau yn cael eu hadrodd wedyn.
- Cynnal y weithdrefn gan ddefnyddio cyfrifiadur dynodedig fydd ddim yn cael ei ddefnyddio gan bobl ifanc ac, os oes angen, gall ei gymryd oddi ar y safle gan yr heddlu. Defnyddiwch yr un cyfrifiadur am gyfnod y weithdrefn.
- Mae'n bwysig sicrhau dylid staff perthnasol gael mynediad addas i'r rhyngrwyd i gynnal y weithdrefn, ond bod y gwefannau a'r cynnwys ymwelir â nhw yn cael eu monitro'n agos a'u cofnodi (i roi amddiffyniad pellach).
- Cofnodwch URL unrhyw wefan sydd yn cynnwys y camddefnydd honedig a disgrifio natur y cynnwys sydd yn achosi pryder. Efallai bydd yn rhaid cofnodi a chadw sgrin luniau o'r cynnwys ar y peiriant sydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr

ymchwiliad hefyd. Gall y rhain cael eu hargraffu, arwyddo a'u hatodi i'r ffurflen (ac eithrio achosion o ddelweddau camdriniaeth rywiol plentyn - gweler isod)

- Unwaith bydd hyn wedi'i gwblhau a'i archwilio'n llawn bydd angen i'r grŵp farnu os oes sylwedd i'r pryder yma neu beidio. Os oes, yna bydd angen gweithredu'n briodol a gall hyn gynnwys y canlynol:

    - Ymateb mewnol neu weithdrefnau disgyblaeth
    - Cyfranogiad gan yr Awdurdod Lleol neu sefydliad cenedlaethol / lleol (fel sy'n berthnasol).
    - Cyfranogiad yr heddlu ac / neu weithrediad

Os yw cynnwys yn cael ei adolygu sydd yn cynnwys delweddau o gamdriniaeth Plentyn yna dylai stopio'r monitro a chyfeirio'r peth at yr Heddlu'n syth. Bydda enghreifftiau eraill i adrodd at yr heddlu yn cynnwys:

- digwyddiadau o ymddygiad 'paratoi' (grooming)
- gyrru deunydd brwnt i blentyn
- deunydd i oedolion sydd â'r potensial i dorri'r Ddeddf Cyhoeddiadau Anweddus
- deunydd hiliol troseddol
- ymddygiad, gweithgaredd neu ddeunydd troseddol fel arall

- **Ynysu'r cyfrifiadur dan sylw gorau bosib. Bydd unrhyw newid i'w gyflwr yn gallu niweidio ymchwiliadau hwyrach yr heddlu.**

Mae'n bwysig bod yr holl gamau uchod yn cael eu dilyn gan y byddant yn darparu llwybr tystiolaeth i'r ysgol ac efallai'r heddlu ac yn dangos bod ymweliadau i'r gwefannau yma wedi'u gwneud er pwrpas diogelu. Dylai'r grŵp gadw'r ffurflen wedi'i llenwi fel tystiolaeth ac er pwrpas cyfeirio.


Digwyddiad Diogelwch Ar-lein
Deunydd Anaddas
Canfyddir deunydd neu weithgareddau anghyfreithlon neu amheuir hynny
Hysbyswch y sawl sy'n gyfrifol am Ddiogelwch Ar-lein
Gweithgaredd neu gynnwys anghyfreithlon (Dim perygl uniongyrchol)
Gweithgaredd neu gynnwys anghyfreithlon (Plentyn mewn perygl uniongyrchol)
Staff/Gwirfoddolwr neu oedolyn arall
Os yw'n ymwneud ag aelod staff/ gwirfoddolwr neu blentyn/person ifanc, adolygwch y digwyddiad a phenderfynwch beth yw'r camau gweithredu priodol, gan weithredu cosbau lle bydd angen hynny
Hysbyswch yr Heddlu gan ddefnyddio unrhyw rif a lluniwch adroddiad am y digwyddiad yn unol â threfniadau diogelu lleol
Peidiwch ag oedi os oes gennych chi bryderon, rhowch wybod amdanyn nhw'n syth.
Cadwch y dystiolaeth yn ddiogel
Cofiwch, peidiwch chi ag ymchwilio i'r digwyddiad. Peidiwch ag edrych ar unrhyw ddelweddau/fideos na'u meddiannu. Peidiwch â holi cwestiynau arweiniol.
Galwch Gyfarfod Strategaeth Broffesiynol
Adroddwch yn ôl am ddigwyddiad diogelwch ar-lein
Cofnodwch y manylion yn y log digwyddiadau
Disgwyliwch am ymateb yr heddlu
Adolygwch bolisïau a rhannwch brofiadau ac arferion yn ôl y galw
Darparu cofnodion wedi'u coladu yn adrodd digwyddiadau i'r Pwyllgor Amddiffyn Plant ac/neu awdurdod perthnasol fel sy'n briodol
Os na chaiff unrhyw weithgaredd neu ddeunydd anghyfreithlon ei gadarnhau, dychwelwch at weithdrefnau mewnol.
Os caiff gweithgaredd neu ddeunydd anghyfreithlon ei gadarnhau, gadewch i'r heddlu neu awdurdod perthnasol gwblhau eu hymchwiliad a gofynnwch am gyngor gan y corff proffesiynol priodol
Gweithredwch y newidiadau
Monitrwch y sefyllfa
Yn achos aelod staff neu wirfoddolwr, mae'n debyg y bydd gwaharddiad yn digwydd ar adeg cyfeirio'r mater at yr heddlu a bydd yn para tra bydd gweithdrefnau'r heddlu a rhai mewnol yn cael eu dilyn
Mae'r unigolyn enwebedig yn gyfrifol am les y plentyn, felly dylid ei hysbysu am unrhyw beth sy'n peryglu'r plentyn, OND rhaid dilyn gweithdrefnau diogelu lle bydd hynny'n briodol

Gweithrediadau'r Ysgol

Mae'n fwy tebygol bydd yr ysgol angen delio â digwyddiadau sydd yn cynnwys camddefnydd amhriodol yn hytrach nag anghyfreithlon. Mae'n bwysig bod ymateb sydyn i unrhyw ddigwyddiadau mewn modd cyfatebol, a bod aelodau cymuned yr ysgol yn ymwybodol bod ymateb wedi bod i ddigwyddiadau. Y bwriad ydy bod ymdriniaeth i ddigwyddiadau o gamddefnydd yn cael ei wneud trwy weithdrefnau ymddygiad arferol fel canlyn:

Cydnabyddiaeth

Lluniwyd y polisi yma gan bwyso'n drwm ar ddogfennaeth Templed Polisi e-Ddiogelwch Ysgol a luniwyd gan South West grid for Learning, UK Safer Internet Centre fel menter gan Llywodraeth Cymru.

Llofnod Cydlynydd: Miss A Pippen

Llofnod Pennaeth: Mr M Tomos

Llofnod Llywodraethwr: Mr A Regan

Dyddiad: 6.9.24